



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Cylchlythyr Haf 2025

Summer Newsletter 2025

Haf 2025

Croeso cynnes i gylchlythyr chwarterol Comisiynydd y Gymraeg. Gobeithio y byddwch yn mwynhau ei ddarllen. Mae croeso i chi ei rannu gyda chydweithwyr a chyfeillion.



Summer 2025

A warm welcome to the Welsh Language Commissioner's quarterly newsletter. We hope you enjoy reading it and feel free to share it with colleagues and friends



Defnydd o'r Gymraeg ymysg pobl ifanc

Yn ystod Eisteddfod yr Urdd eleni cyhoeddwyd gwaith ymchwil gennym sy'n rhoi darlun o sut mae plant a phobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol a'r coleg. Roedd agweddau tuag at yr iaith yn galonogol, ond roedd y defnydd ohoni gan y bobl ifanc yn gymdeithasol, gan gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol, yn gyfyngedig.

Byddwn yn mynd ati i ystyried y canfyddiadau yn fanylach gan drafod gweithredu pellach gyda'n partneriaid. Gallwch ddarllen mwy am y gwaith hwn drwy [ddilyn y ddolen hon i'n gwefan.](#)

Use of Welsh by young people

At this year's Urdd Eisteddfod, we published research that gave us an insight into how children and young people use the Welsh language outside of school and college. Attitudes towards the language were encouraging, but the use of it by young people socially, including on social media, was limited.

We will consider the findings in more detail and discuss further action with our partners. You can read more about this work by [following this link to our website.](#)

Manifffesto

Wrth i ni edrych ymlaen at etholiad Senedd Cymru 2026 rydym wedi cyhoeddi ein cynigion ar gyfer manifffestos y pleidiau. Gan gydnabod yr heriau ariannol sydd yn parhau i wynebu sefydliadau mae pum maes blaenoriaeth wedi eu hadnabod allai wneud gwahaniaeth gwirioneddol i gryfhau sefyllfa'r Gymraeg yn nhymor cyntaf y Senedd newydd.

Mae'r rhain yn cynnwys ymestyn safonau'r Gymraeg i feysydd blaenoriaeth, creu uned arbenigol i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, a sicrhau hyfforddiant Cymraeg gorfodol ar gyfer y gweithlu addysg.

Gallwch ddarllen mwy drwy ddilyn y ddolen hon i'n gwefan.



Manifesto

As we look ahead to the 2026 Senedd Cymru election, we have published our proposals for party manifestos. Recognising the financial challenges that continue to face

organisations, five priority areas have been identified that could make a real difference to strengthening the position of the Welsh language in the first term of the new Senedd.

These include extending Welsh language standards to priority areas, creating a specialist unit to increase the use of Welsh in the workplace, and ensuring compulsory Welsh language training for the education workforce.

You can read more by following [this link to our website](#).

Wythnos y Cynnig Cymraeg

Cawsom gyfle unwaith eto ym mis Mai i ddathlu llwyddiant y [Cynnig Cymraeg](#) a chynhaliwyd ymgyrch fer i dynnu sylw at y busnesau a'r elusennau sy'n hyrwyddo ac yn defnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd. Yn ystod yr wythnos gwelwyd cyfres o flogiau arbennig ynghyd â fideo newydd gan [Ambiwlans Awyr Cymru](#).

Roedd eleni yn garreg filltir bwysig i'r Cynnig Cymraeg wrth i'r cynllun ddathlu ei bumed pen-blwydd. Rhoddodd hyn y cyfle i ni adlewyrchu ar rai o'r sefydliadau a dderbyniodd y gymeradwyaeth yn y cyfnod cynnar tra'n annog mwy i fanteisio ar y cynllun yn y dyfodol.

Cynnig Cymraeg week

We had the opportunity once again in May to celebrate the success of the [Cynnig Cymraeg](#) (Welsh Offer) and a short campaign was held to highlight the businesses and charities that promote and use the Welsh language on a daily basis. During the week there was a series of special blog posts along with a new video created with [Wales Air Ambulance](#).

This year was an important milestone for the Cynnig Cymraeg as the scheme celebrated its fifth anniversary. This gave us the opportunity to reflect on some of the organisations that received the commendation at an early stage whilst encouraging more to take advantage of the scheme in the future.



**Dathlu
5 Mlynedd
Celebrating
5 Years**



Cymraeg yn y gweithle

Yn ddiweddar cynhaliwyd cynhadledd yng Nghaerdydd wedi ei threfnu ar y cyd rhwngom ni a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. O dan y teitl Dysgu, Datblygu, Defnyddio roedd y ffocws ar un o'n blaenoriaethau yn ein Cynllun Strategol sef y Gymraeg yn y gweithle. Daeth dros 200 i stadiwm dinas Caerdydd a chafwyd cyflwyniadau a thrafodaethau difyr iawn, gyda'r nod o rannu arfer da a hyrwyddo dulliau newydd o weithio sy'n rhoi'r Gymraeg wrth galon bywyd gwaith. Gallwch gael cip o'r hyn ddigwyddodd ar y dydd drwy [ddilyn y ddolen hon](#).



Welsh in the workplace

A conference was recently held in Cardiff jointly organised between the Welsh Language Commissioner and the National Centre for Learning Welsh. Under the title Datblygu, Dysgu, Defnyddio (Learn, Develop, Use) the focus was on one of the priorities in our Strategic Plan - Welsh in the workplace. Over 200 people came to Cardiff city stadium to hear entertaining presentations and discussions, with the aim of sharing good practice and promoting new ways of working that puts the Welsh language at the heart of working life. Look back at what happened on the day by [following this link](#).



Gofod3

Gofod3 yw'r digwyddiad mwyaf o'i fath i'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Mae'n gyfle i rannu syniadau, i drafod ac i rwydweithio. Bu'r tîm Hybu yno eleni ac roedd yn gyfle i rai sefydliadau, megis Ymchwil Canser Cymru, sôn am eu profiadau o dderbyn y Cynnig Cymraeg. Cafodd aelodau o Rwydwaith y Trydydd Sector gyfle hefyd i holi Efa am arferion da ac i rannu'r heriau sy'n wynebu'r sector o ran y Gymraeg.

Cymraeg

 ymchwil cancer
cymru
cancer research
wales

Gofod3

Gofod3 is the largest event of its kind for the voluntary sector in Wales. It's an opportunity to share ideas, to discuss and to network. The Hybu team was present at the event and some organisations, such as Cancer Research Wales, spoke about their experiences of receiving the Cynnig Cymraeg. Members of our Third Sector Network also had the opportunity to discuss with Efa about good practice and shared the challenges facing the sector in relation to the Welsh language.



Eisteddfod Genedlaethol Wreccsam

Rydym wrth gwrs yn edrych ymlaen at wythnos brysur yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wreccsam ddechrau mis Awst. Yn ogystal â gweithgareddau lu ar ein stondin bob dydd byddwn yn cynnal digwyddiad [ym mhafiliwn y Cymdeithasau fore Llun, 4 Awst am 11](#) lle bydd sgwrs banel yn ystyried ein blaenoriaethau yn y cynllun strategol dan arweiniad y darlledwr, Iwan Griffiths.

Mae croeso cynnes i bawb a chofiwch alw i'n gweld ar ein stondin. Mae'r amserlen lawn i'w gweld ar ein [gwefan](#) ac ar ein cyfryngau cymdeithasol.

Wreccsam National Eisteddfod

We are looking forward to a busy week at the National Eisteddfod in Wreccsam at the beginning of August. As well as a host of activities on our stand each day we will be holding an event in the [Societies pavilion \(Cymdeithasau\) on Monday morning, 4 August at 11 a.m.](#) where a panel discussion will consider our priorities outlined in the strategic plan and manifesto, led by broadcaster, Iwan Griffiths.

Everyone is welcome and don't forget to call to see us at our stand. The full programme for the week can be seen on our [website](#) and on our social media.

Grymuso'r Gymraeg

Rydym wedi cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar berfformiad sefydliadau wrth gydymffurfio â dyletswyddau iaith ar gyfer 2024–25. O dan y teitl **Grymuso'r Gymraeg drwy lywodraethiant cadarn**, mae'r adroddiad yn adlewyrchu blwyddyn arall o waith manwl i fonitro, asesu a hyrwyddo cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg a chynlluniau iaith ar draws sectorau cyhoeddus a gwasanaethau.

Mae cynnydd cyson mewn cydymffurfiaeth ac mae hynny i'w groesawu, ond mae heriau parhaus mewn gwasanaethau rheng flaen megis gwasanaethau ffôn a derbynfeydd.

Gallwch ddarllen yr adroddiad yn llawn ddrwy [ddilyn y ddolen hon](#).

Grymuso'r Gymraeg

(Empowering the Welsh language)

We have published our annual report on organisations' performance in complying with Welsh language duties for 2024–25. Entitled **Empowering the Welsh language through strong governance** the report reflects another year of in-depth work to monitor, assess and promote compliance with Welsh language standards and language schemes across public sectors and services.

There is a steady increase in compliance and that is to be welcomed, but there are ongoing challenges in frontline services such as telephone services and receptions.

You can read the report in full by [following this link](#).

Am fwy o wybodaeth am ein gwaith cofiwch ymweld â'n gwefan [comisiynyddygymraeg.cymru](#) neu dilynwnch ni ar Facebook, Instagram a LinkedIn ac os am anfon neges atom y cyfeiriad ebost yw [cyfathrebu@cyg-wlc.cymru](#)



For more information about our work please visit our website: [welshlanguagecommissioner.wales](#) or follow us on Facebook, Instagram and LinkedIn and if you want to get in touch e-mail us on: [cyfathrebu@cyg-wlc.wales](#)





Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner